


A ydych chi'n edrych ar ôl rhywun?

Gwybodaeth ddefnyddiol i bobl o bob oed sy'n gofalu am deulu, ffrindiau neu gymdogion yng Ngwynedd.



A ydych chi'n edrych ar ôl rhywun?



A ydych yn blentyn, person ifanc neu'n oedolyn sy'n gofalu am rywun sy'n sâl neu'n anabl?

Cynnwys

Tudalen

1.	Ydych chi'n ofalwr?	1
2.	Gofalwyr ifanc	1
3.	Cefnogaeth a gwybodaeth ar gael	2
4.	Iechyd a hamdden	7
5.	Gwaith, hyfforddiant a chysiau	8
6.	Materion ariannol	9
7.	Materion cyfreithiol	11
8.	Cynnal ac addasu eich cartref	12
9.	Trafnidiaeth	13
10.	Gwybodaeth ddefnyddiol	15
11.	Gofalu hyd y diwedd	16
12.	Cwynion	17
13.	Cyfeirlyfr A-Y	17

Ymwrthodiad

Er y gwnaed pob ymdrech i wneud yn siwr bod cynnwys y llyfryn hwn yn gywir pan gafodd ei gyhoeddi, ni all Partneriaeth Gofalwyr Gwynedd dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am wallau, diffygion, safon y wybodaeth neu'r gwasanaethau a ddarperir gan gyrff eraill; ni allwn chwaith argymhell cynhyrchion neu wasanaethau.



A ydych chi'n edrych ar ôl rhywun?

1. Ydych chi'n ofalwr?

Gofalwr yw rhywun sy'n edrych ar ôl perthynas neu ffrind sy'n sâl, sy'n fregus neu sy'n anabl, na allant fyw gartref heb dderbyn cefnogaeth ymarferol neu emosiynol di-dâl gennych chi. **Pan yn cyfeirio at ofalwyr yn y llyfryn hwn, golygir gofalwyr di-dâl o bob oed a chefnidir oni nodir yn wahanol.**

Beth bynnag fo'ch sefyllfa, nid yw'n rhesymol i unrhyw un ddisgwyl i chi fod yn ofalwr heb gymorth. Gall hwn fod yn gymorth ymarferol, e.e. seibiant, rhywfaint o wybodaeth, cyngor ar fudd-daliadau a gwasanaethau y gallech fod yn gymwys i'w derbyn, ac ati, neu glust i wrando pan fyddwch angen siarad.

Mae canfod a derbyn cymorth yn gallu bod yn anodd ac weithiau, mae hi'n anodd gwybod ble i ddechrau. Mae'r llyfryn gwybodaeth hwn wedi'i ddylunio i'ch cynorthwyo chi fel gofalwr. Ni all roi'r ateb i bob dim i chi, fodd bynnag, bydd yn eich cyfeirio at rywfaint o wybodaeth, cefnogaeth a chymorth sydd ar gael i ofalwyr.

Mae'r daflen hon yn cynnwys gwybodaeth ynghylch sawl sefydliad, enwau a chyfeiriadau cyswllt a rhifau ffôn. Os nad oes modd i unrhyw berson neu asiantaeth benodol roi cymorth uniongyrchol i chi, byddant yn gwneud eu gorau i'ch rhoi mewn cyswllt â rhywun fydd yn gallu helpu.

Os oes gennych chi unrhyw bryderon neu anghenion cefnogaeth – corfforol neu emosiynol – peidiwch â'u cadw i chi eich hun. Weithiau, gall pobl broffesiynol wneud camgymeriad trwy gymryd yn ganiataol eich bod yn gwybod am bethau, felly gwnewch yn siwr eich bod yn **gofyn!**

2. Gofalwyr Ifanc

Weithiau, mae plant a phobl ifanc yn dod yn ofalwyr hefyd. Efallai eich bod o dan 18 oed eich hun ac yn cwblhau tasgau sylweddol o ran gofalu neu dasgau yn y cartref gan fod gennych riant, brawd, chwaer, perthynas arall neu ffrind sy'n dioddef o:

- Anabledd corfforol
- Problem iechyd meddwl neu anabledd dysgu
- Salwch hirdymor neu derfynol
- Problemau gyda'u defnydd o gyffuriau neu alcohol

Mae gennych hawl i ofyn am asesiad o'ch anghenion fel gofalydd. Gallwch gysylltu â'r Tîm Derbyn Cyfeiriadau Plant er mwyn gwneud hunan gyfeiriad ar **01758 704455**. Bydd y tîm yn ystyried eich sefyllfa ac efallai yn gwneud asesiad o'ch anghenion. Byddent yn ystyried os gallent roi cymorth i chi yn eich rôl o ofalu.

Gallwch hefyd gysylltu â 'Gweithredu dros Blant' sy'n rhedeg prosiect gofalwyr ifanc yng Ngwynedd. Gallant eich cynghori a darparu gwasanaethau ar ran Cyngor Gwynedd. Gallwch gysylltu â nhw drwy ffonio **01248 364614** neu drwy e-bost **gwyneddyoungcarers@actionforchildren.org.uk**

Os ydych yn yr ysgol, mae'n bwysig bod yr ysgol yn gwybod am eich sefyllfa. Gallant eich cefnogi. Dylech siarad am eich sefyllfa gyda rhywun yn yr ysgol, fel eich athro cofrestru neu unrhyw aelod staff sympathetig arall.



3. Cefnogaeth a gwybodaeth ar gael

Asesiadau gofalwyr

Mae'n ddyletswydd ar Wasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod lleol i ddarparu asesiad o anghenion gofalwyr o ran cefnogaeth yn eu rôl fel gofalwr, pan wneir cais am asesiad. Gall gofalwyr gynnwys unrhyw un sy'n ymwneud â gofal a chefnogi, yn cynnwys teulu, ffrindiau neu gymdogion. Fodd bynnag, yn sgil meini prawf cymhwyster y Cyngor, nid yw pob gofalwr yn gymwys i dderbyn gwasanaeth uniongyrchol gan yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol neu asiantau eraill sydd dan gontract gan y Cyngor i ddarparu gwasanaethau, ond mae ffynonellau eraill o gefnogaeth ar gael.



Mae asesiad gofalwyr yn edrych ar anghenion gofalwyr. Gall y gefnogaeth sydd ar gael gynnwys: seibiant o ofalu, mynediad at hyfforddiant, gwahoddiadau i ddigwyddiadau gofalwyr a chyfeirio at wasanaethau perthnasol. Gallwch chi dderbyn asesiad, hyd yn oed os nad yw'r person yr ydych yn gofalu amdano wedi derbyn asesiad o'i anghenion ei hun.

Meddyliwch ymlaen llaw ynghylch beth fyddai'n gwneud bywyd yn haws, a pha gynlluniau y byddech yn hoffi eu rhoi yn eu lle pe byddai argyfwng.

I wneud cais am asesiad, ffoniwch Dîm Cyngori ac Asesu Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd ar **01286 682888** neu os yw'n ymwneud â mater iechyd meddwl cysylltwch â'r Tîm Iechyd Meddwl:

Arfon: 01248 363470
Dwyfor / Meirionnydd: 01766 510011

Argyfwng

Os bydd argyfwng y tu allan i oriau arferol ac angen cymorth Gwasanaethau Cymdeithasol arnoch, cysylltwch â'r Tîm Tu Allan i Oriau ar **01248 353551**.

Os ydych yn gweld bod gofalu yn y cartref yn gynyddol anodd, efallai y byddai'r sawl yr ydych yn gofalu amdano yn cael budd o gymorth ychwanegol yn y cartref neu seibiant. Am ragor o wybodaeth ynghylch yr opsiynau gofal sydd ar gael, gofynnwch am asesiad gan wasanaethau cymdeithasol Cyngor Gwynedd ar **01286 682888**.

Ffynonellau Gwybodaeth

Mae nifer o fudiadau a all ddarparu gwybodaeth briodol ac amserol i chi, gan gynnwys:

- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gwasanaethau Iechyd
- Mudiadau'r Trydydd Sector
- Gwasanaethau Llyfrgelloedd

A ydych chi'n edrych ar ôl rhywun?

Gwasanaethau Cymdeithasol

Os oes gennych chi gyswllt gyda gweithiwr cymdeithasol, cofiwch eu holi am unrhyw wybodaeth a allai eich helpu i ofalu. Hefyd mae gwybodaeth ar gael ar wefan Gwasanaethau Cymdeithasol.

Gwasanaethau Iechyd

Bydd eich meddygfa a'i staff yn ffynhonnell dda o wybodaeth. Gallwch holi eich meddyg teulu neu un o'r nyrsys. Mae'n bosibl y bydd taflenni a llyfrynau defnyddiol ar gael yno. Hefyd mae gan Ysbyty Gwynedd stondin wybodaeth, ac mae'n werth holi staff yn y clinigau neu ar y wardiau.

Mudiadau'r Trydydd Sector

Mae nifer o fudiadau'r trydydd sector yn darparu gwybodaeth berthnasol i ofalwyr a gofalwyr ifanc e.e. Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr a Gweithredu Dros Blant. Mae rhai mudiadau yn cynorthwyo pobl ag afiechyd penodol ac mae ganddynt wybodaeth benodol all helpu gofalwyr hefyd e.e. Cymdeithasau Strôc, Alzheimer, Parkinson a Hafal. Gweler rhagor o wybodaeth a manylion cyswllt yn y cyfeirlyfr A-Y.

Gwasanaethau Llyfrgelloedd

Mae gan bob llyfrgell yng Ngwynedd gasgliad o lyfrau am ofalu; mae rhai wedi'u hysgrifennu gan ofalwyr. Hefyd bydd ffeiliau gwybodaeth ar gael yn 2013. Yn ogystal gellir cael mynediad i gyfrifiaduron a'r we yn rhad ac am ddim - mae llawer o fforymau ar-lein sydd yn bwrpasol i ofalwyr a fydd efallai o gymorth i chwi.

Cymorth ar gael drwy'r Gwasanaethau Cymdeithasol

Gofal Cartref (cymorth yn y cartref)

Gall hyn gynnwys cymorth gyda thasgau gofal personol megis ymolchi neu wisgo a chymorth gydag adferiad sylfaenol er mwyn datblygu sgiliau a chynorthwyo pobl i fyw mor annibynnol â phosib yn y gymuned. Weithiau, gall cymorth gyda thasgau domestig fod ar gael i'r gofalwr.

Ysbaid/Gwasanaeth Eistedd (seibiant byr)

Mae ysbaid yn rhoi seibiant i chi, gyda rhywun arall yn edrych ar ôl y person yr ydych yn gofalu amdano. Gall hyn ddigwydd yn eich cartref neu rywle arall. Gellir cynnig ysbaid trwy dderbyn asesiad gan y gwasanaethau cymdeithasol.

Taliadau Uniongyrchol

Mae Taliadau Uniongyrchol yn cynnig cyfle i bobl wneud eu trefniadau gofal eu hunain. Yn lle derbyn gwasanaethau gan y Cyngor, gallwch ddewis derbyn yr arian a phrynu'r gwasanaethau rywle arall – sy'n rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i chi ac i'r sawl yr ydych yn gofalu amdano. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Cyngori ac Asesu Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd ar **01286 682888**.



A ydych chi'n edrych ar ôl rhywun?

Teleofal

Mae'r system Teleofal yn cynnwys defnyddio sensoriaid yn y cartref; mae'r defnydd o'r offer yn gallu cynorthwyo pobl i fyw yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Gall y sensoriaid anfon rhybudd awtomatig i ganolfan fonitro sy'n weithredol 24/7 mewn argyfwng. Yna, cysylltir gyda'r bobl briodol er mwyn rhoi cymorth. Gall sensoriaid ddarganfod nifer o broblemau yn y tŷ megis argyfwng, llifogydd, tân, adnabod tymheredd eithafol yn dangos bod y gwres neu'r popty wedi ei adael ymlaen, gall gydnabod fod defnyddwyr wedi crwydro o'r tŷ neu efallai wedi cael codwm. Mae offer 'stand alone' ar gael sy'n danfon y rhybuddion i alwr (pager) gofalwyr yn y cartref yn hytrach na'r ganolfan fonitro, felly gall Teleofal gefnogi gofalwyr yn eu cartrefi. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Cyngori ac Asesu Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd ar **01286 682888**.



Yn syml, mae Teleofal yn rhoi tawelwch meddwl i ofalwr fod cymorth ar gael pe byddai angen, a hefyd yn caniatáu iddynt gysgu'n dda neu fynd i siopa, gan wybod y byddant yn cael eu galw os bydd eu hangen.

Gofal Preswyl a Nyrsio

Os nad oes modd i chi barhau i ofalu yn y cartref, efallai eich bod angen ystyried gofal preswyl neu nyrsio. Mae cartrefi nyrsio yn cynnig lefel uchel o gefnogaeth i bobl gydag anghenion iechyd cymhleth neu ymddygiad heriol, tra bod cartrefi preswyl yn cynnig lefel is o gefnogaeth ar gyfer pobl sy'n fwy annibynnol. Er mwyn gweld a oes modd i chi gael cymorth gyda'r ffioedd, bydd angen i'r sawl yr ydych yn gofalu amdano dderbyn asesiad ariannol. Fodd bynnag, os oes modd i'r sawl yr ydych yn gofalu amdano dalu'r costau ei hun, gallwch gysylltu â'r cartref yn uniongyrchol. Mae'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn darparu gwybodaeth ynghylch cartrefi gofal (gweler A-Y ar ddiwedd y llyfryn).

Talu am wasanaethau

Os yw'r person yr ydych yn gofalu amdano yn cael ei asesu fel bod angen gwasanaethau, yn dibynnu ar ei sefyllfa ariannol, efallai y gofynnir iddo/iddi gyfrannu at y costau, hyd at uchafswm o £50 yr wythnos.

Meini Prawf Cymhwyster

Mae'r Cyngor yn ceisio darparu gwasanaethau i'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Er mwyn gwneud hyn, mae'n defnyddio meini prawf cymhwyster ble y mae anghenion pobl yn cael eu hasesu fel critigol, sylweddol, cymedrol neu isel. Ar hyn o bryd, cynigir gwasanaethau i'r rhai hynny sydd yn y band critigol neu sylweddol. Nid yw meini prawf cymhwyster yn seiliedig ar incwm – maent yn seiliedig ar angen y person am gefnogaeth.

Os ydych yn cael eich asesu fel rhywun nad yw'n gymwys am ofal iechyd neu gymdeithasol, cynigir cyngor a gwybodaeth i chi ynghylch cefnogaeth arall gan sefydliadau gwirfoddol a phreifat. Rhestrir rhai o'r sefydliadau hyn yn rhan A-Y y llyfryn hwn, ac fe nodir a oes modd i chi gysylltu â nhw'n uniongyrchol am gefnogaeth ai peidio.

A ydych chi'n edrych ar ôl rhywun?

Cymorth ar gael drwy'r Gwasanaeth Iechyd

Mae cymorth ar gael i chi, fel gofalwr, a'r person yr ydych yn gofalu amdano, gan wasanaethau iechyd lleol fel meddygon teulu, ysbytai ac iechyd cymunedol.

Meddygfa Meddygon Teulu

Sicrhewch fod eich meddyg teulu yn gwybod eich bod yn ofalwr - bydd nodi hyn ar eich cofnodion yn egluro pam eich bod angen gwneud apwyntiad ar adeg benodol neu angen ymweliad cartref, er enghraifft. Mae gennych yr hawl i gael ymweliad cartref os nad ydych yn gallu mynd i'r feddygfa.

Trefnwch apwyntiad dwbl os ydych chi a'r person yr ydych yn gofalu amdano angen mwy o amser gyda'r meddyg teulu. Mae hefyd yn syniad da paratoi ar gyfer yr apwyntiad drwy ysgrifennu unrhyw gwestiynau sydd gennych fel nad ydych yn anghofio unrhyw beth.

Gellir yn awr drefnu apwyntiadau ar-lein drwy ddefnyddio'r safle gwe newydd Fy Iechyd Ar-lein. Mae'r apwyntiad yn cael ei gadarnhau ar-lein felly nid oes angen ffonio'r feddygfa o gwbl. Gellir hefyd ganslo apwyntiadau ar-lein. Y cyfan sydd angen ei wneud er mwyn defnyddio'r gwasanaeth hwn yw cofrestru eich manylion gydag eich meddygfa (bydd angen i chi ddarparu prawf o hunaniaeth).

Os nad ydych yn hyderus ynglŷn â darparu gofal meddygol i'r person yr ydych yn gofalu amdano, gallwch ofyn i'ch meddygfa leol am hyfforddiant ychwanegol.

Fel gofalwr mae gennych hawl i frechiad blynyddol rhag y fflw. Dylai hyn gael ei gynnig i chi yn awtomatig os ydych wedi cofrestru fel gofalwr â'r feddygfa.

Gofal a ariennir gan GIG

Os na all y gwasanaethau cymdeithasol ddiwallu anghenion gofal iechyd y person rydych yn gofalu amdano, yna gallent fod â'r hawl i dderbyn pecyn gofal a ddarperir gan y GIG. Mae hyn yn cynnwys llety a chefnogaeth nyrsio a ddarperir yn y cartref neu mewn cartref nyrsio. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'ch meddyg teulu / gweithiwr cymdeithasol neu, os yw'r person yr ydych yn gofalu amdano yn yr ysbyty, staff y ward. Os yw hyn yn wir, rydych yn parhau â hawl i asesiad gofalwr gan y gwasanaethau cymdeithasol.

Fferyllwyr

Mae'r rhan fwyaf o fferyllwyr yn cynnig nifer o wasanaethau i gefnogi gofalwyr a'r sawl y maent yn gofalu amdano. Maent yn cynnig gwasanaeth ail-bresgripsiwn ble anfonir yr ail-bresgripsiwn yn syth i'r fferyllfa sy'n golygu y gall y gofalwr/ claf gasglu'r feddyginiaeth pan fydd yn barod. (Mae angen i'r gwasanaeth hwn gael ei drefnu i ddechrau drwy'r feddygfa). Mae rhai fferyllwyr yn cynnig gwasanaeth danfon i'r cartref.

Mae'r holl fferyllwyr yn cynnig adolygiad meddyginiaeth flynyddol. Mae ganddynt hefyd y cyfleusterau i gynnig ymgynghoriadau preifat ar feddyginiaeth ar unrhyw adeg.



A ydych chi'n edrych ar ôl rhywun?

Ysbytai a Chlinigau

O dan y Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010, mae'r gyfraith yn nodi bod yn rhaid i staff iechyd mewn clinigau ac ysbytai ymgynghori â chi fel gofalwr ac i gynnig cefnogaeth i chi yn eich rôl fel gofalwr (er y gallai hyn olygu dim ond eich cyfeirio chi at sefydliadau a all helpu).

Os bydd y sawl yr ydych yn gofalu amdano yn cael ei dderbyn i'r ysbyty, efallai y byddwch yn dymuno parhau i helpu gyda'u gofal neu efallai byddai'n well gennych adael i staff y ward wneud hynny, ond naill ffordd neu'r llall, mae gennych yr hawl i gael gwybod am eu cyflwr a'u triniaeth.

Cyn rhyddhau unrhyw un sydd angen gofal, rhaid i gynllun rhyddhau fod yn ei le, sy'n cynnwys cynllun gofal pan fydd y claf yn cyrraedd gartref. Fel gofalwr, dylid ymgynghori â chi am hyn ac ymarfer da fyddai i'r cynllunio ddechrau cyn gynted â phosibl, er mwyn sicrhau bod popeth sydd ei angen yn ei le cyn i'r claf gael ei ryddhau o'r ysbyty.

Gall y cynllun rhyddhau gynnwys beth sy'n digwydd ar y diwrnod rhyddhau; unrhyw asesiad sydd ei angen; cludiant adref; pecyn gofal; offer; addasiadau i'r cartref; cysylltiad â gweithwyr iechyd proffesiynol; apwyntiadau dilynol i gleifion allanol.

Cefnogaeth arall sydd ar gael

Cwmsela

Dyma gyfle i drafod eich problemau gyda rhywun sydd wedi'u hyfforddi i'ch cynorthwyo i weld pethau mewn goleuni gwahanol a dod o hyd i ffyrdd o'ch cynorthwyo i ymdopi neu wneud newidiadau cadarnhaol. Gallwch drafod bron unrhyw beth, er enghraifft, ymddeoliad, unigrwydd, pryder, straen, teimlo fel nad ydych yn gallu ymdopi, perthnasau teuluol poenus, galar a hunanladdiad. Mae'r gwasanaeth hwn yn gyfrinachol yn llwyr. Cysylltwch â'ch meddyg teulu, ac unrhyw fudiad perthnasol a rhestrir yn y A-Y ar ddiwedd y llyfryn.

Grwpiau Cefnogi

Mae grwpiau cefnogi yn rhoi cyfle i chi gyfarfod gofalwyr eraill sy'n deall beth sydd ynghlwm â gofalu, rhannu arbenigedd, gwybodaeth, pwyntiau defnyddiol a chyfle i ymlacio a gwneud ffrindiau. Mae'n bosibl mynd â'r person yr ydych yn gofalu amdano gyda chi i rai o'r grwpiau hyn.

Potel Werdd yn yr oergell

Dyma botel fach blastig y gall rhywun roi copi o bresgripsiwn y claf ynddi. Mae labeli gyda chroesau gwyrdd arnynt, a dylai un ohonynt fod ynghlwm i ble bynnag y mae'r 'botel' yn cael ei chadw (fel arfer yn yr oergell) a'r llall ar ba bynnag ddrws fyddai'r gwasanaethau brys yn mynd i mewn i'r tŷ. Mae'r gwasanaethau brys yn ymwybodol o'r cynllun a gallant ddod o hyd i'r botel i fynd gyda'r claf i'r ysbyty pan nad oes unrhyw un arall yn y tŷ.

Mae'r poteli gwyrdd ar gael gan feddygfeydd teulu yn Arfon a Dwyfor a changhennau o Fferyllfeydd Rowlands neu Wasanaeth Cynnal Gofalwyr (gweler A-Y).



A ydych chi'n edrych ar ôl rhywun?

Talking Labels

Dyfais sydd ar gael mewn canghennau o Boots. Mae'r fferyllydd yn darllen y cyfarwyddiadau ar ddyfais sy'n cael ei gosod ar dop y bocs meddyginiaeth a gallwch eu clywed drwy wasgu'r botwm ar y ddyfais. Mae'n gadael i bobl ag amhariad golwg wybod sawl tabled sydd angen eu cymryd a phryd i'w cymryd. Mae hefyd yn egluro unrhyw newidiadau i'r presgripsiwn arferol. Mae'n rhad ac am ddim.

Adfocatiaeth

Mae yna nifer o sefydliadau sy'n cynnig gwasanaethau adfocatiaeth a all fod o gymorth i chi fel gofalwr ac i'r sawl yr ydych yn gofalu amdano. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn darparu gwasanaeth adfocatiaeth annibynnol a generig i holl ddefnyddwyr gwasanaeth oedolion a'u gofalcwyr yng Ngwynedd, (ac eithrio unigolion gyda phroblemau iechyd meddwl) sydd wedi cael asesiad gofal cymdeithasol, waeth beth yw canlyniad yr asesiad. Fel arall, gweler yr A-Y am fanylion sefydliadau trydydd sector a all helpu.

4. Iechyd a Hamdden

Edrych ar ôl eich hun

Nid yw wastad yn hawdd adnabod eich hun fel gofalwr, ac i chi ac eraill (yn cynnwys y sawl yr ydych yn gofalu amdano), dderbyn fod gennych anghenion eich hun, e.e. cefnogaeth, cymorth, dealltwriaeth a seibiant o'ch rôl fel gofalwr.

Os ydych yn gofalu amdano chi eich hun, rydych yn fwy tebygol o aros yn iach a gallu parhau i gynorthwyo'r sawl yr ydych yn gofalu amdano. Yn aml, mae gofalcwyr a oedd yn ei chael yn anodd ar y dechrau, gan feddwl na fyddai modd iddynt ymdopi o gwbl, yn teimlo'n llawer mwy hyderus ar ôl ychydig fisoedd os ydynt yn derbyn digon o gefnogaeth a chymorth.

Efallai y byddai aelodau eraill o'r teulu, ffrindiau neu gymydog, yn fodlon eich cynorthwyo o bryd i'w gilydd, fel bod modd i chi gymryd seibiant o'ch rôl fel gofalwr.

Edrychwch ar ôl eich iechyd eich hun - ceisiwch gael noson dda o gwsg, bwytwch ddiet iach a gwnewch ychydig o ymarfer corff. Derbyniwch y cymorth sydd ar gael i chi gan deulu, ffrindiau a gwasanaethau gwirfoddol a statudol.

Mae eich meddyg yn fan cychwyn da ar gyfer gwybodaeth a chefnogaeth. Dywedwch wrth eich meddyg teulu eich bod yn ofalwr; oherwydd mae hi'n bosibl nad yw'n ymwybodol o hyn. Siaradwch am unrhyw broblemau sydd gennych, yn enwedig os ydych yn teimlo dan straen neu'n boenus. Bydd modd i'ch meddyg teulu eich cyfeirio at wasanaethau gofal cymdeithasol a sefydliadau eraill allai fod o gymorth.

Seibiant o ofalu

Mae nifer o sefydliadau trydydd sector yn cynnig digwyddiadau cymdeithasol ar gyfer gofalcwyr a gofalcwyr ifanc yn ardal Gwynedd, fel y gallwch gymryd seibiant o ofalu. Gweler A –Y am wybodaeth sut i gysylltu.



A ydych chi'n edrych ar ôl rhywun?

Cerdyn Sinema (CEA)

Am ffi flynyddol fechan, mae'r cerdyn hwn yn rhoi'r hawl i'r perchennog gael un tocyn am ddim i'r sawl sy'n mynd â nhw i'r sinema. Bydd perchennog y cerdyn angen cyflwyno prawf i ddangos eu bod yn derbyn Lwfans Byw i'r Anabl/ Taliad Annibyniaeth Bersonol neu Lwfans Gweini, neu fod yn berson dall cofrestredig. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â **0845 123 1292**.

Cynllun Cyfeirio Ymarfer Cenedlaethol

Mae'r cynllun hwn ar gyfer y rhai dros 17 mlwydd oed, a fyddai'n elwa o fynediad i raglen ymarfer corff dan oruchwyliaeth i wella iechyd a lles. Gall buddion gynnwys rheoli pwysau, lleihau pwysedd gwaed, lleihau straen a phryder. Siaradwch â'ch meddyg teulu/ nyrs am wybodaeth bellach.

Seibiant i Ofalwyr Ymddiriedolaeth Saga

Mae'r ymddiriedolaeth hon yn dyfarnu gwyliau rhad ac am ddim ar gyfer gofalwr a ffrind, gan gynnwys arian gwario a gofal seibiant os oes angen. Rhaid i ofalwyr fod dros 50 oed, wedi bod yn gofalu am dros flwyddyn a heb gael toriad sylweddol yn ystod y cyfnod hwnnw. Gall gofalwyr naill ai enwebu eu hunain neu gael eu henwebu. Am ragor o fanylion ewch i'w safle we **www.saga.co.uk/care/carers-trust** neu ffonio **01303 77421**.

Gwyliau yn y Cotswolds a Torbay

Mae Carers Holidays yn cynnig gwyliau mewn carafannau ar safleoedd Hoburne Holidays yn y Cotswold's a Torbay am bris gostyngol i ofalwyr. Mae ganddynt garafannau wedi'u haddasu'n llawn ar gyfer pobl mewn cadair olwyn neu sydd â phroblemau symudedd. Mae croeso i unrhyw ofalwr fynd ar wyliau yno naill ai gyda'r sawl sy'n derbyn gofal neu ffrindiau neu ar ei ben ei hun. Mae'r cyfleusterau ar y safleoedd yn cynnwys pyllau nofio, sawna, caffi, bwyty a bar ag adloniant gyda nos. Cysylltwch â **0117 965 2365** neu e-bostiwch **info@carersholidays.org.uk** neu ewch i **www.carersholidays.org.uk**

5. Gwaith, hyfforddiant a chysiau

Gofalwyr sy'n Gweithio

Mae nifer o ofalwyr eisiau parhau i weithio am resymau ariannol, ac er mwyn cael seibiant o ofalu. Gyda chefnogaeth ychwanegol gan y gwasanaethau cymdeithasol, y sefydliadau gwirfoddol a statudol a'ch cyflogwr, efallai y byddwch yn ei chael yn haws cael cydbwysedd rhwng y ddau. Siaradwch gyda'ch cyflogwr am weithio'n hyblyg.

Hyfforddiant

Yn ogystal â chysiau hyfforddi penodol i ofalwyr, os ydych yn ystyried dychwelyd i'r gwaith, efallai yr hoffech ychwanegu at eich sgiliau. Efallai yr hoffech gymryd rhan mewn cyrsiau er mwyn hamddena hefyd. Mae sawl ffordd o ddysgu, er enghraifft, dysgu o bell, cyrsiau ar y We neu ysgol ddydd/nos. Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn cynnig dysgu o bell hyblyg rhan-amser fel y gallwch astudio o'ch cartref, o gwmpas y gofalu ac ymrwymadau eraill, a gweithio tuag at gymwysterau cydnabyddedig. Am wybodaeth bellach cysylltwch â'r Brifysgol Agored ar **029 2047 1170**.



A ydych chi'n edrych ar ôl rhywun?

Cyrsiau

"Edrych ar fy Ôl". Mae EPP Cymru yn cynnig y cwrs hwn i ofalwyr. Fe'i cynhelir yn y gymuned leol i unrhyw un mewn rôl gofalu. Mae'r cwrs yn cael ei gynnal am 2½ awr yr wythnos am gyfnod o 6 wythnos. Mae cyrsiau eraill ar gael ar-lein, os na allwch eu mynychu'n bersonol. Gweler yr A-Y am fanylion cyswllt.

Dychwelyd i'r gwaith

Os hoffech gyfuno eich rôl gofalu â gwaith cyflogedig, mae Canolfan Byd Gwaith yn cynnig ystod o hyfforddiant a chymorth ariannol os ydych am ddechrau neu aildechrau gweithio ar unrhyw adeg. Mae ganddynt ymgynghorwyr sydd wedi'u hyfforddi i ddeall anghenion gofalwyr a gallent siarad â chi am yr hyn sydd ar gael. Am ragor o wybodaeth ewch i www.gov.uk/moving-from-benefits-to-work/help-for-parents-and-carers neu cysylltwch â'ch Canolfan Gwaith lleol i drefnu apwyntiad i weld ymgynghorydd. Ni fydd yn effeithio ar eich budd-daliadau ac nid oes rhwymedigaeth i wneud unrhyw beth arall.

6. Materion Ariannol

Efallai eich bod chi, neu'r sawl yr ydych yn gofalu amdanynt, yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol - yn ddibynnol ar oedran, anghenion ac incwm. Gallwch un ai gysylltu â'r sefydliadau statudol yn uniongyrchol neu ofyn am gyngor gan sefydliad gwirfoddol e.e. Age Cymru neu Gyngor ar Bopeth.

Mae gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) linell gymorth gyfrinachol, rhad ac am ddim, ar gyfer pobl ag anableddau a gofalwyr - **0800 88 22 00**. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl iddynt wneud ymweliad cartref er mwyn rhoi cyngor, gwybodaeth, cwblhau ceisiadau budd-dal ac ati i bobl na all gysylltu â hwy fel arall.

Yn ogystal, efallai y gallwch dderbyn cymorth ariannol gan elusennau a sefydliadau buddiannol sy'n cynnig benthychiadau a grantiau i'ch cynorthwyo i dalu am bethau na fydd cynlluniau eraill yn eu hariannu. Gallai mudiad trydydd sector megis Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr eich cynorthwyo â hyn.

Os ydych yn gofalu am ddefnyddiwr Gwasanaethau Cymdeithasol gall yr Uned Hawliau Lles gynnig gwasanaeth cynhwysfawr i chi ar y materion hyn, yn ogystal â sicrhau eich bod yn ceisio am yr hyn sy'n ddyledus i chi. Cysylltwch â **01766 771000**.

Budd-daliadau i ofalwyr:

Lwfans Gofalwyr - dyma'r prif fudd-dal ar gyfer gofalwyr sydd dros 16 mlwydd oed ar incwm isel ac sy'n treulio 35 awr neu fwy bob wythnos yn gofalu am rywun sy'n derbyn budd-dal anabledd penodol. Cysylltwch â'r Uned Lwfans Gofalwr - **0845 608 4321** neu Linell Ymholiadau Budd-daliadau - **0800 88 22 00**



A ydych chi'n edrych ar ôl rhywun?

Budd-daliadau i chi a'r sawl yr ydych yn gofalu amdanynt:

Credyd Pensiwn - mae hyn yn gwarantu lefel incwm penodol i bobl dros 60 mlwydd oed. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Pensiwn - **0800 99 12 34**

Taliad Tanwydd y Gaeaf – dyma daliad blynyddol tuag at danwydd y gaeaf i bobl dros 60 mlwydd oed. Cysylltwch â'r Llinell Taliadau Tanwydd y Gaeaf – **08459 15 15 15**

Cymhorthdal Incwm – ar gyfer pobl rhwng 16 a 59 mlwydd oed sydd ar incwm isel, nad ydynt yn gweithio neu sy'n gweithio am lai na 16 awr yr wythnos. Cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith - **0800 012 1888**

Budd-dal Tai – cynorthwyo gyda thaliadau rhent os ydych ar incwm isel. Cysylltwch â'r Cyngor – **01286 682689** neu **0800169 9729** (os ydych dros 60 mlwydd oed)

Gostyngiadau ac Ad-daliadau Treth y Cyngor – mae gostyngiadau ac ad-daliadau ar gael os ydych yn byw ar eich pen eich hun, ar incwm isel neu os ydych yn gofalu am rywun sy'n dioddef o anabledd meddyliol / salwch meddwl. Cysylltwch ag Adran Treth y Cyngor – **01286 682689** neu **0800169 9729** (os ydych dros 60 mlwydd oed)

Cronfa Gymdeithasol / Grant Gofal Cymunedol – yn darparu taliadau lwmp swm, grantiau a benthyciadau ar gyfer costau annisgwyl i bobl ar incwm isel. Cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith – **0845 603 2713**

Benthyciad Argyfwng

Os ydych am wneud cais am fenthyciad argyfwng ar gyfer nwyddau i'ch cartref neu eich costau byw, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith – **0800 587 5986**

Lwfans Gweini – ar gyfer pobl dros 65 mlwydd oed sydd angen cymorth gyda gofal personol oherwydd anabledd. Telir hwn ar raddfa wahanol, yn ddibynnol ar y gofal angenrheidiol. Cysylltwch â'r Adran Gwaith a Phensiynau – **0845 712 34 56**

Y Cynllun Motability – mae hwn yn rhoi cymorth i logi / prynu car, sgwter/cadair olwyn â motor i bobl sy'n derbyn budd-daliadau anabledd penodol. Ar gyfer y Cynllun Motability, cysylltwch â Motability Operations – **01279 635666**

Tâl Salwch Statudol (SSP) a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth – ar gyfer pobl rhwng 16 a 65 mlwydd oed nad ydynt yn gallu gweithio oherwydd salwch. Cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith – **0800 055 66 88**

Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) – ar gyfer pobl sy'n iau na 65 mlwydd oed, yn cynnwys plant sydd ag anableddau difrifol ac sydd angen cymorth gyda gofal personol a symudedd. Cysylltwch â'r Adran Gwaith a Phensiynau – **08457 123456**



A ydych chi'n edrych ar ôl rhywun?

D.S. Mae Llywodraeth San Steffan yn bwriadu disodli Lwfans Byw i'r Anabl gyda Thaliad Annibyniaeth Bersonol newydd (PIP), a fydd yn cael strwythur a phroses asesu newydd. Bydd PIP yn cael ei gyflwyno yn 2013 a 2014.

Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP) – gan ddechrau ym mis Ebrill 2013, bydd PIP wedi disodli DLA'n llwyr erbyn diwedd 2016. Bydd dwy elfen iddo, fel DLA, sef elfen gofal ac elfen symudoledd. Dau gategori fydd gan yr elfen gofal, yn wahanol i'r tri sydd gan DLA.

7. Materion cyfreithiol

Weithiau, mae angen i ofalwyr gymryd cyfrifoldeb dros faterion ariannol a chyfreithiol y sawl y maent yn gofalu amdanynt. Gall cynllunio ymlaen llaw arbed amser, ymdrech ac arian. Mae'r pethau y gallech fod angen ymdrin â hwy yn cynnwys:

Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu – gellir newid cyfrifon i gyfrifon ar y cyd neu gallwch lunio 'Mandad Trydydd Parti'. Cysylltwch â'r banc neu gymdeithas adeiladu berthnasol.

Pŵer Atwrnai Parhaol – Dyma broses gyfreithiol sy'n galluogi person i roi cyfrifoldeb ar rywun arall i wneud penderfyniadau ar eu rhan ynghylch materion ariannol. Ers mis Hydref 2007, dan Ddeddf Galluedd Meddyliol, mae Pŵer Atwrnai Parhaol yn rhoi pŵer i wneud penderfyniadau ynghylch materion iechyd hefyd. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r "Office of the Public Guardianship" – **0300 456 0300**. Yn ogystal, gallai mudiadau trydydd sector fod o gymorth. Gweler yr A-Y am fanylion cyswllt.

Gwneud Ewyllys

Mae ewyllys yn gofnod ysgrifenedig o'r hyn fydd yn digwydd i eiddo ac arian person wedi marwolaeth. Gall person ysgrifennu ei ewyllys ei hun; fodd bynnag, os nad yw'n cael ei ysgrifennu yn iawn, gall problemau godi. Mae'n well cysylltu â chyfreithiwr neu ysgrifennwr ewyllysiau. Cysylltwch â'r Society of Will Writers ar **0800 838270** neu Gymdeithas y Gyfraith ar **020 7242 1222** am ragor o gyngor neu wybodaeth.

Cyngor Cyfreithiol

Mae cyngor cyfreithiol ar gael am ddim gan Gyngor ar Bopeth. Gallent eich cynorthwyo i leoli gwybodaeth gyfreithiol a gwasanaethau cynghori rhad neu am ddim, eich rhoi mewn cyswllt â chyfreithiwr arbenigol, eich cynorthwyo i dderbyn cymorth cyfreithiol (cymorth tuag at gostau cyfreithiol), cynhyrchu taflenni gwybodaeth a chynnig llinell gymorth annibynnol a chyfrinachol dros y ffôn sy'n rhad ac am ddim. Gweler yr A -Y am fanylion cyswllt.

Sefydlu ymddiriedolaeth

Os ydych yn gofalu am blentyn sâl neu anabl, efallai y byddwch eisiau meddwl am sefydlu cronfa ymddiriedolaeth, lle mae ymddiriedolwyr yn gyfrifol am reoli'r ymddiriedolaeth a chyflawni eich dymuniadau. Dylech gysylltu â chyfreithiwr i gael cyngor a gwybodaeth bellach neu gallai aelod o Society of Will Writers roi cymorth (gweler uchod am fanylion cyswllt).



8. Cynnal ac addasu eich cartref

Cymhorthion ac Addasiadau

Gall defnyddio offer arbennig a/neu addasu ble yr ydych yn byw ei gwneud yn haws i chi ofalu am rywun gartref ac iddynt hwy barhau i fyw yno. Mewn rhai amgylchiadau efallai bydd angen i chi ystyried a yw'ch cartref presennol yn addas ai peidio i fodloni anghenion y person yr ydych yn gofalu amdano.

Mae'r cymhorthion a'r offer y gellir eu darparu yn cynnwys cytleri sy'n hawdd gafeael ynddynt, ffyn, comôd, offer i godi uchder y gwely, baglau, reiliau, hoist, esgidiau orthopaedig, offer i godi uchder cadeiriau, sgwteri, fframiau cerdded, cadeiriau olwyn a gwelyau y gellir eu haddasu. Gall y rhain i gyd fod o gymorth i fyw o ddydd i ddydd.

Gallwch gael cymhorthion ac addasiadau trwy:

Gwasanaethau Cymdeithasol - Bydd therapyddion galwedigaethol yn gallu rhoi cyngor i chi ar gymhorthion ac addasiadau, megis rheiliau, hoist, offer i godi uchder cadeiriau. Cysylltwch â Thîm Cyngori ac Asesu ar **01286 682888** am asesiad.

Gwasanaethau Iechyd – comôd, ffyn, cadeiriau olwyn, gwelyau y gellir eu haddasu ac ati. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi gael eich cyfeirio gan feddyg teulu neu nyrs at yr Adran Ffisiotherapi Cymunedol.

Siopau – mae nifer o siopau symudedd ble y gellir prynu cymhorthion ac offer ar gyfer byw o ddydd i ddydd. Mae'r rhain wedi eu rhestru yn y llyfr ffôn, e.e. Byw Bywyd – **01286 830101** neu CIL De Gwynedd **01766 514249**

Y Groes Goch Brydeinig – maent yn rhoi benthyg cadeiriau olwyn, offer i orffwys y cefn arnynt, seddi ar gyfer y bath, potiau gwely, comôd, ffyn ac ati, am ffi fechan – **01248 364677**.

Efallai y gallwch chi neu'r person yr ydych yn gofalu amdano dderbyn grant i dalu, neu gyfrannu at gost trwsio, gwella neu addasu eich cartref. Mae rhai grantiau yn rhai profi modd neu mae amodau'n gysylltiedig â nhw, felly sicrhewch eich bod yn deall cyn cytuno fod unrhyw waith yn cael ei wneud. Mae rhai o'r grantiau tai sydd ar gael yn cynnwys:

Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - ar gyfer pobl gydag anabledau a'u gofalwyr er mwyn gwneud cartrefi yn fwy addas i fyw ynddynt. Mae gofyn derbyn asesiad gan therapydd galwedigaethol cymwys cyn cael Grant Cyfleusterau i'r Anabl. Cysylltwch â Thîm Cyngori ac Asesu Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd **01286 682888**.

Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Nyth)

Mae'r cynllun hwn yn hwyluso gosod mesurau effeithlonrwydd ynni megis gwres canolog, boeleri neu insiweiddio'r llofft. I ganfod os ydych yn gymwys, ffoniwch Radffôn 0808 808 2244. Mae cyngor hefyd ar gael ar arbed ynni; rheoli arian; gwneud yn siŵr eich bod ar y cynllun tanwydd gorau i chi ac a oes gennych hawl i



A ydych chi'n edrych ar ôl rhywun?

unrhyw fudd-daliadau i gynyddu eich incwm.

Canolfan Cyngori Effeithlonrwydd Ynni Gogledd Cymru - yn darparu gwasanaeth annibynnol er mwyn i chi arbed arian ar eich biliau ynni, gan gynnwys cyngor ar broblemau gyda biliau; dod o hyd i'r cyflenwyr ynni rhataf; ffyrdd o arbed ynni heb newid eich ffordd o fyw; datrys problemau insiwleiddio a gwresogi - Llinell rhadffôn **0800 954 0658**

Gofal a Thrwsio

Mae Gofal a Thrwsio yn cynnig cyngor a chefnogaeth i bobl 60 mlwydd oed a throsodd ac i bobl gydag anableddau yng Ngwynedd i wneud gwelliannau i'w cartrefi. Nid yw'r gwasanaeth hwn ar gael i denantiaid cymdeithasau tai. I wybod mwy, cysylltwch â **01766 510160**

9. Trafnidiaeth

Mae cael mynd allan am dro yn gallu gwneud byd o wahaniaeth i ofalwyr. Gallwch ddefnyddio'r rhan symudedd o'r Lwfans Byw i'r Anabl /Taliad Annibyniaeth Bersonol tuag at y cynllun Motability.

Ceir preifat

Motability

Mae Motability yn galluogi pobl ag anableddau i ddefnyddio eu lwfans symudedd, a ariennir gan y llywodraeth, i brynu car, cadair olwyn â motor neu sgwter newydd. Am fwy o fanylion, ffoniwch **01279 635999**.

Y Cynllun Bathodyn Glas

Mae'r cynllun yn galluogi pobl gydag anawsterau cerdded difrifol gael budd o barcio mewn mannau wedi'u dynodi ar gyfer pobl gydag anableddau. Ar gyfer ffurflen gais, cysylltwch â Galw Gwynedd ar **01766 771000** neu lawr lwythwch ffurflen o safle **www.gwynedd.gov.uk**. Fel arall, gallwch ymweld â safle 'Siop un Stop' i godi ffurflen.

Siop Gwynedd Pwllheli – Swyddfa Ardal Dwyfor, Ffordd y Cob, Pwllheli

Siop Gwynedd Dolgellau – Swyddfa Ardal Meirionnydd, Cae Penarlâg, Dolgellau

Siop Gwynedd Arfon – Swyddfa'r Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon

Mae bathodynau glas ar gael hefyd drwy safle gwe **www.direct.gov.uk/bluebadge**

Teithio i'r ysbyty ac oddi yno

Os na allwch chi neu'r sawl yr ydych yn gofalu amdanynt gyrraedd yr ysbyty ar gyfer apwyntiad, gallwch drefnu trafndiaeth trwy'r gwasanaeth trafndiaeth ysbyty. Rhaid i chi drefnu hyn o leiaf un wythnos cyn yr apwyntiad. I ganfod p'un ai ydych yn gymwys ai peidio, cysylltwch â **0845 607 6181**



A ydych chi'n edrych ar ôl rhywun?

Trafnidiaeth Gymunedol

Bws Barbara Gwynedd - dyma wasanaeth yn arbennig ar gyfer rhai na all symud o'u cadair i mewn i gerbyd. I wybod mwy, cysylltwch â **01766 522756**

Cymrod – yn darparu cefnogaeth gyda thrafnidiaeth i bobl gydag anableddau, pobl hŷn a phobl fregus yn ardal Dwyfor – **01758 614311**

O Ddrws i Ddrws – gwasanaeth ar gyfer pobl hŷn neu bobl gydag anableddau nad ydynt yn gallu cyrraedd trafndiaeth gyhoeddus – **01758 721777**

Gwasanaeth Trafnidiaeth a Hebrwng y Groes Goch – ar gael i unrhyw un sy'n ei chael hi'n anodd teithio. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â **01248 351103**

Trafnidiaeth Gyhoeddus

Traveline Cymru

Gwasanaeth gwybodaeth trafndiaeth gyhoeddus. Ei ddiben yw cynnig "Siop un Stop" ar gyfer gwybodaeth teithio yng Nghymru, gan gynnwys bws, bws moethus, trênn, a fferi. Gallent eich helpu i gynllunio eich taith, drwy ddarparu amserlenni ac ati. Gallent hefyd ddarparu manylion cyswllt cwmnïau bysiau a threnau fel y gallwch gysylltu â hwy yn uniongyrchol am ragor o wybodaeth, e.e. oes gan fysiau ar lwybr penodol fynediad hwylus i gadeiriau olwyn. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â hwy ar **0871 200 22 33**, neu ewch i **www.traveline-cymru.info**.

Teithio ar y Bws am Ddim

Mae pobl dros 60 mlwydd oed a phobl gydag anableddau yn cael teithio am ddim ar yr holl wasanaethau bws lleol yng Nghymru. Os na all y sawl yr ydych yn gofalu amdano deithio ar ei ben ei hun, gallant wneud cais am docyn bws cyd-deithiwr a gall y person hwnnw deithio gyda nhw am ddim. Cysylltwch â'r Cyngor – **01286 682 831**

Gwasanaethau Trên

Darperir y rhan fwyaf o wasanaethau trênn yng Nghymru gan Arriva. Maent yn anelu at wneud eu trenau'n addas i ddefnyddwyr cadair olwyn. Mae ganddynt lyfryn ar gael "Making Rail Accessible - Helping Older & Disabled Passengers", er mwyn derbyn copi, cysylltwch â **0870 9000 722**, neu lawr lwythwch gopi o **www.arrivatrainswales.co.uk**

Am ymholiadau teithio ffoniwch **08457 484950 (0845 6050600 Ffôn testun)**, am gymorth i gwsmeriaid anabl, ffoniwch **0845 3003005 (0845 6050600 Ffôn testun)**

Cerdyn Trênn i Bobl Anabl

Am ffi flynyddol, mae'r cerdyn rheilffordd yn caniatáu i berchennog y cerdyn ac un oedolyn deithio gyda hwy gael 1/3 oddi ar y rhan fwyaf o docynnau trênn ledled Prydain Fawr. Am ragor o wybodaeth am y cerdyn rheilffordd, cysylltwch â **0845 605 0525**.



10. Gwybodaeth ddefnyddiol arall

Allwedd i Doiledau Cyhoeddus ar gyfer yr Anabl

Mae'r Cynllun Allwedd Cenedlaethol (NKS) yn cynnig mynediad annibynnol i bobl anabl i doiledau cyhoeddus ledled y wlad. Mae 9,000 o doiledau addas ar draws y DU wedi eu gosod â chlo NKS.

Am ffi fechan, gallwch dderbyn un o allweddau 'Radar' hyn gan Gyngor Gwynedd i agor y drws i bob toiled cyhoeddus ar gyfer yr anabl. I wybod mwy am sut y gallwch gael allwedd, cysylltwch â Galw Gwynedd ar **01766 771000**.

Profion llygaid/clyw yn y cartref

Gellir cael profion llygaid GIG am ddim yn y cartref i bobl dros 60 mlwydd oed os na allant ymweld ag optegydd stryd fawr. Cysylltwch â 'Home Vision Care' ar **01745 851159**. Mae'r 'Outside Clinic' hefyd yn cynnig profion llygaid a chlyw i rai sydd â hawl, ffoniwch **0800 85 44 77**.

Gwasanaeth Llyfrgell

Os oes rhywun yn gaeth i'r tŷ neu os ydych yn ofalwr llawn amser, gall y Gwasanaeth Llyfrgell ddod at eich drws bob pedair wythnos. Mae gan y llyfrgell lyfrau amrywiol ar gyfer gofalwyr, rhai wedi'u hysgrifennu gan ofalwyr, a allai fod yn ddefnyddiol i chi. Cysylltwch â'ch llyfrgell leol am fanylion pellach, neu ffoniwch **01286 679465** neu **01341 422771**, neu e-bostiwch **llyfrgell@gwynedd.gov.uk**.

Trwydded Deledu

Mae pobl dros 75 mlwydd oed yn gymwys i gael trwydded am ddim. Gall pobl sydd naill ai'n ddall neu sydd â nam difrifol ar eu golwg gael gostyngiad o 50% ar gost eu trwydded deledu. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Thrwyddedu Teledu - **0300 790 6135**.

Cymorth Dŵr Cymru

Gallwch gael gostyngiad yn eich bil dŵr os ydych ar fudd-daliadau penodol, neu os oes gennych gyflwr meddygol penodol. Cysylltwch â **0800 052 0145**.

Rhifau Cyswllt Mewn Argyfwng

Mewn argyfwng ffoniwch **999** neu **112** (ambiwylans, heddlu, tân)

Gwasanaeth Meddygol Tu Allan i Oriau

Gwasanaeth meddygol brys rhwng 6:30pm – 8:00am ddyddiau'r wythnos a thrwy'r dydd ar benwythnosau a Gwyliau Cyhoeddus – **0300 123 5566**

Galw Iechyd Cymru

Gwasanaeth ffôn 24 awr sy'n darparu cyngor a gwybodaeth – **0845 4647**



A ydych chi'n edrych ar ôl rhywun?

Tîm Argyfwng Tu Allan i Orlau (Gwasanaethau Cymdeithasol)

Darparu gwasanaeth ar gyfer argyfyngau gwaith cymdeithasol sy'n digwydd y tu allan i oriau swyddfa arferol –
01248 353551

11. Gofalu hyd y diwedd

Gofalu am Rhywun sy'n Dioddef o Salwch Terfynol

Nid yw gofalu am rywun sy'n marw yn beth hawdd. Fodd bynnag, gall rhoi gofal i'r person roi'r cyfle i chi ddweud ffarwel mewn ffordd hynod arbennig. Eich dewis chi yw gwneud hyn ai peidio, felly, meddyliwch os yw rhoi'r gofal yn mynd i fod yn rhy anodd i chi; siaradwch gyda'ch meddyg teulu, gweithiwr cymdeithasol neu fudiad gofalwyr. Os yw unrhyw un o'ch anghenion gofal yn debygol o newid, gofynnwch am asesiad. Gallech fod yn gymwys am gymorth ariannol yn ogystal. Mae proses i wneud cais yn gynt yn bodoli ar gyfer pobl y mae eu disgwyliad oes yn llai na chwe mis.



Pan fo'r sawl yr ydych yn gofalu amdano'n marw

Efallai eich bod yn teimlo fod gennych gant a mil o bethau i'w gwneud, ond mae'n bwysig rhoi amser i chi eich hun ymdrin â'ch emosiynau, gan ei bod yn debygol y byddwch mewn sioc hyd yn oed os oeddech wedi paratoi eich hun. Os hoffech siarad am eich teimladau, cysylltwch â Cruse sy'n darparu cymorth am ddim i bobl sydd wedi cael profedigaeth – **0844 5617856**

Cofrestru marwolaeth

Pan fydd rhywun yn marw yn y cartref, mae'n rhaid cysylltu â'u meddyg teulu neu'r Gwasanaeth y Tu Allan i Orlau Meddygon Teulu i gael Tystysgrif Feddygol a rhybudd ffurfiol. Mae'n rhaid cofrestru'r farwolaeth o fewn pum diwrnod yn Swyddfa'r Gofrestr a byddant yn darparu Tystysgrif Claddedigaeth neu Amlosgi ar gyfer y trefnwyr angladdau, a thystysgrif marwolaeth.

Cymorth gyda chostau angladd

Gall angladdau fod yn ddrud, felly mae'n bwysig gwirio'r gost derfynol cyn dechrau gwneud trefniadau. Mae'n werth gwirio i weld a oes unrhyw yswiriant neu gynllun cynilo yn bodoli i helpu tuag at y costau. Caiff cost yr angladd ei gymryd o ystâd y person ymadawedig. Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, mae'n bosibl y cewch help tuag at gost yr angladd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Os nad ydych yn gallu cael help tuag at gostau angladd, gallech ofyn i'r trefnwyr angladdau a yw'n bosibl eu talu mewn rhannau.

Bywyd ar ôl Gofalu

Efallai y byddwch yn darganfod, gan nad ydych yn ofalwr mwyach, fod gennych fwy o amser i wneud pethau. Gallwch ymuno â grŵp, dychwelyd i'r gwaith neu ymgymryd â hyfforddiant neu waith gwirfoddol. Beth bynnag fo'ch penderfyniad, byddwch yn garedig efo chi eich hun, gan y gallech fod yn teimlo'n fregus iawn yn dilyn marwolaeth rhywun sy'n agos atoch chi. Bydd y Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr yn cefnogi gofalwyr sydd wedi cofrestru â hwy am ddwy flynedd yn dilyn profedigaeth.

A ydych chi'n edrych ar ôl rhywun?

12. Cwynion

Hwyrach y byddwch yn teimlo weithiau fod angen i chi gwyno am y gwasanaethau rydych wedi'u derbyn, neu wedi methu â'u derbyn, gan y sector statudol.

Os ydych yn anhapus gyda'r gwasanaeth rydych yn ei dderbyn gan Wasanaethau Cymdeithasol Gwynedd, gallwch gysylltu â'r Swyddog Gofal Cwsmer ar **01286 679549 / 01286 679223**.

Os ydych yn anhapus gyda gwasanaeth ysbyty, clinigau neu wasanaethau cymunedol megis nyrs ardal, gallwch gysylltu â'r Rheolwr Cwynion yn Ysbyty Gwynedd i drafod. Gallwch gysylltu â'r Uned Gwynion ar **01248 384194**.

Os ydych yn anhapus gyda'ch meddygfa, deintydd GIG, fferyllfa neu optegydd, dylech gysylltu â'r Uned Gwynion yn Ysbyty Gwynedd ar y rhif ffôn uchod. Hefyd, gall Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr eich cefnogi drwy ddarparu gwybodaeth a chynghor ar y dewisiadau sydd ar gael i gleifion a'u gofalwyr. Gallwch gysylltu â hwy ar **01248 679284**.



13. Cyfeirlyfr A-Y o wasanaethau ar gyfer gofalwyr yng Ngwynedd


Mae'r cyfeirlyfr A -Y hwn yn atodiad i'r Llawlyfr Gofalwyr Gwynedd.

